# Astudiaeth Achos

**Enghraifft o ymgorffori cynaliadwyedd yn y rhaglen BA (Anrh) Rheoli Marchnata Ffasiwn drwy'r modiwl "Dylunio Gwyrdd: Cynaliadwyedd a Chyfrifoldeb dros Ffasiwn"**

Rwy'n credu bod addysg yn rym dros newid, yn nhermau arloesi o ran barn a newid trawsnewidiol yn yr unigolion sy'n ei brofi. Fel addysgwyr, mae gennym gyfrifoldeb dros annog myfyrwyr i feddwl yn foesegol am y diwydiannau y maent am ymuno â nhw, ac yn eu tro, i chwarae eu rhan wrth wneud newidiadau angenrheidiol. Y diwydiant ffasiwn yw'r ail lygrwr mwyaf yn y byd[1], ac addysgu defnyddwyr yw'r cam cyntaf wrth fynd i'r afael â hyn i sicrhau newid. Mae ymgorffori'r meddylfryd hwn yn y cwricwlwm ar gyfer ffasiwn yn sicrhau bod myfyrwyr yn deall yr heriau sy'n wynebu'r diwydiant ac yn gallu mynd i'r afael â nhw. Dyluniwyd y modiwl Cynaliadwyedd Ffasiwn o amgylch 'model 4 E' Fframwaith ar gyfer Ffordd o Fyw Cynaliadwy Adran yr Amgylchedd, Bwyd a Materion Gwledig (DEFRA) - a ddefnyddir gan y llywodraeth fel offeryn ar gyfer newid ymddygiad. Mae diwygio'r diwydiant trwy nodi arferion mwy cynaliadwy'n allweddol er mwyn i'r diwydiant fodloni Nodau Datblygu Cynaliadwy 2030 (NDCau) y Cenhedloedd Unedig. Dyluniwyd y modiwl nid yn unig i '*addysgu'r*' myfyrwyr i greu cynllun cynaliadwyedd ar gyfer brand - gan eu *'galluogi'* i ddadansoddi cadwyni cyflenwi ffasiwn yn feirniadol i nodi lle gallai brandiau ymddwyn yn fwy cyfrifol - ond hefyd i'w '*grymuso'* i newid eu hymddygiad eu hunain a *'bod yn enghraifft'* o'r ymddygiad hwn o fewn unrhyw frand y byddant yn gweithio ag ef yn y dyfodol. Dyluniwyd y modiwl o amgylch NDCau y Cenhedloedd Unedig, Egwyddorion Addysg Rheolaeth Gyfrifol y Cenhedloedd Unedig (PRME) a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) (2015) er mwyn sicrhau ei fod yn cyd-fynd â chyd-destunau lleol a byd-eang ac yn berthnasol i rolau'r diwydiant yn y dyfodol. Nod yr asesiad oedd datblygu cynllun cynaliadwyedd rhyngweithiol gan integreiddio'r NDCau a'r model 4 E i ganolbwyntio ar newid ymddygiad defnyddwyr a busnes, gan sicrhau bod damcaniaethau'n cael eu cymhwyso i ymarfer mewn ffordd ddilys. Cafodd myfyrwyr y dasg o greu cynllun cynaliadwyedd ar gyfer brand o'u dewis, cwestiynu eu harferion cyfredol a dadansoddi eu cyfleoedd i newid o ran cyrchu, gweithgynhyrchu, cludo, pecynnu ac ailddefnyddio/ailgylchu. Roedd lefel y gwaith yn uchel iawn, ac, mewn llawer o achosion, o safon y diwydiant (gellir cyrchu darn o waith enghreifftiol - Cynllun cynaliadwyedd ar gyfer Timberland - trwy'r ddolen hon). Dangoswyd boddhad o 100% yn y modiwl gan werthusiad y modiwl, a 100% ar gyfer y pwnc a darpariaeth hybrid.

Mae un myfyriwr wedi darganfod cymaint o angerdd nes iddi ddatblygu ei blog ffasiwn ei hun, lle mae'n annog ac yn enghreifftio ffyrdd y gall ei dilynwyr ailddefnyddio ac ail-steilio gwisgoedd i sicrhau hirhoedledd, yn ogystal ag addysgu ar effeithiau ffasiwn tafladwy.

*"Fel myfyriwr sy'n dwli ar ffasiwn, bûm yn euog o brynu dillad i'w "gwisgo unwaith" yn unig.  Fodd bynnag, newidiodd fy meddylfryd tuag at ffasiwn a phrynu cyn gynted ag y cefais fy nghyflwyno i'r Modiwl. Heb y Modiwl Cynaliadwyedd ysbrydoledig ac ysgogol, ni fyddwn erioed wedi bod â'r wybodaeth, y gallu a'r cyfleoedd i ddod yn Llysgennad Ail-wneud a chreu Tudalen Instagram Ffasiwn Cynaliadwy... gan roi'r cyfle imi gysylltu a rhannu syniadau â chymuned o Lysgenhadon i helpu i hysbysu a gwneud y diwydiant ffasiwn yn fwy cynaliadwy gyda'n gilydd.*

*Mae'r modiwl nid yn unig wedi llunio fy mhenderfyniadau i ddilyn y rolau hyn ond mae hefyd wedi diffinio fy meddylfryd ac wedi rhoi llwybr clir imi o'r daith y byddwn i wrth fy modd yn ei dilyn pan fyddaf yn graddio."*

Myfyriwr Lefel 6, 2020